

# Diane Matthews Cylch Meithrin Plws, Ysgol Gwenffryd



Fe wnaeth Diane benderfynu dilyn y cwrs Camau yn ddiweddar – dyma ei phrofiadau hi.

## Pam?

Dilynodd Diane y cwrs i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei swydd. Un o brif fanteision dilyn y cwrs ar-lein yw'r ffaith ei fod yn ei helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg pan mae yn ei gwaith. Yn ogystal mae ei wyres yn mynychu ysgol Gymraeg – felly mae hyn yn ei helpu hi i ddeall mwy os yw'n canu caneuon iddi hi yn y Gymraeg, neu'n siarad gyda hi yn Gymraeg.

## Canlyniad!

Dywedodd Diane "Rwy'n ei chael hi'n anodd cael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith bob dydd, ond mae gwneud y cwrs wedi fy helpu, a dyna pam rwyf wedi parhau i'r lefel nesaf. Mae wedi bod yn dda dysgu ar-lein ac mae'n dda iawn fy mod yn gallu mynd yn ôl i bob uned a'u hymarfer pryd bynnag y dymunaf."



Top Tips Diane!

-Gwnewch bob uned ar eich cyflymder eich hun.
-Mwynhewch y cwrs
-Peidiwch â rhoi'r gorau iddi



mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Camau
Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar / Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare